*[Enghraifft o Hysbysiad Rhybudd Gorfodi]*

**PWYSIG – MAE'R OHEBIAETH HON YN CAEL EFFAITH AR EICH EIDDO**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**
**(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015)**

**HYSBYSIAD RHYBUDD GORFODI**

**CYFLWYNWYD GAN:** [enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol] ("yr Awdurdod").
**I:** [*enw derbynnydd yr hysbysiad hwn*]

**1.** Caiff **YR HYSBYSIAD HWN** ei gyflwyno gan yr Awdurdod, wrth ymarfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 173ZA y Ddeddf uchod. Mae'r Awdurdod yn credu y bu achos o dorri rheoliadau cynllunio ar y tir sy'n cael ei ddisgrifio ym mharagraff 2 isod.

Mae'r Awdurdod yn credu y byddai'n gyflymach cyflwyno'r hysbysiad hwn, o ystyried darpariaethau y Cynllun Datblygu Lleol ac ystyriaethau perthnasol eraill, mae'n rhesymol rhagweld, pe byddai cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad a nodir ym mharagraff 3 isod yn cael ei wneud, y byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi.

Rhoddir gwybodaeth ychwanegol bwysig yn yr Atodiad i'r hysbysiad hwn.

**2. Y TIR Y CYFEIRIR ATO YN YR HYSBYSIAD**
Tir yn [*cyfeiriad y tir, neu ddisgrifiad o'r rhan berthnasol o'r tir sy'n gysylltiedig â'r hysbysiad*], sydd wedi'i nodi gydag ymyl o liw amlwg yn y cynllun a atodir.

**3. Y GWEITHGARWCH SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R HYSBYSIAD HWN**
Mae'n ymddangos i'r Awdurdod bod y materion canlynol yn disgrifio achos o dorri rheoliadau cynllunio:

[*Nodi y datblygiad/defnydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd cynllunio, ac unrhyw weithgarwch sy'n cael ei gynnal fel rhan o'r gweithgarwch hwnnw, neu'n gysylltiedig ag ef.]*

**4. YR HYN SY'N OFYNNOL I CHI EI WNEUD**

Mae'n ofynnol ichi reoleiddio'r achos o dorri rheolau cynllunio drwy:

i. Gyflwyno cais cynllunio ar gyfer y datblygiad a nodir ym mharagraff 3 uchod; neu
ii. *[nodi'r datblygiad sydd i'w ddileu/gweithgarwch sydd i ddod i ben]*

Gallai methu â chydymffurfio â'r hysbysiad hwn o fewn y cyfnod penodedig a nodir ym mharagraff 5 isod arwain at gymeryd camau gorfodi pellach.

**5. AMSER I GYDYMFFURIO**

[*nodwch nifer y dyddiau*] wedi dyddiad yr hysbysiad hwn.

Dyddiad: [dyddiad yr hysbysiad]

**Llofnodwyd:** [*Swyddog awdurdodedig yr Awdurdod*]
**Ar ran:** [*Enw a chyfeiriad yr Awdurdod*]

**Swyddog Enwebedig:** [*Enw y swyddog cyswllt*]
**Rhif ffôn:** [y Swyddog Enwebedig]

**ATODIAD**

**RHYBUDD**

**MAE'R HYSBYSIAD HWN YN DOD I RYM AR UNWAITH**

**NID OES HAWL I APELIO I WEINIDOGION CYMRU YN ERBYN YR HYSBYSIAD HWN.**

Os nad ydych yn siŵr beth sy'n rhaid i chi ei wneud o ganlyniad i'r hysbysiad hwn, dylech gysylltu **ar unwaith** â [*Swyddog awdurdodedig sydd wedi'i enwebu i ddelio ag ymholiadau, cyfeiriad a rhif ffôn].*

Os ydych angen cyngor annibynnol am yr hysbysiad hwn, rydym yn awgrymu eich bod yn cysylltu ar unwaith â chyfreithiwr, ymgynghorydd cynllunio neu gynghorydd proffesiynol arall sy'n arbenigo mewn materion cynllunio.

<u>Er gwybodaeth</u> [dewisol]

[Darparu dolenni i ofynion dilysu lleol a chenedlaethol perthnasol]